Mae NICE wedi asesu VibraTip er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn.

Dyfais fach sy'n dirgrynu yw VibraTip, tua maint ffob allweddi. Fe'i defnyddir i weld a yw pobl â diabetes wedi datblygu cymhlethdod o'r enw niwropathi amgylchol diabetig. Grŵp o gyflyrau lle caiff y system nerfol amgylchol ei niweidio yw niwropathi amgylchol. Gall effeithio ar nerfau gan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am y canlynol:

- synwyriadau (megis poen a chyffyrddiad)
- rheoli cyhyrau.

Gosodir VibraTip ar droed person. Os na all deimlo'r dirgryniadau, mae'n arwydd y gall fod wedi datblygu niwropathi ac mae'n bosibl y cynigir profion pellach iddo.

Fodd bynnag, mae NICE wedi penderfynu bod angen gwaith ymchwil cyn y gellir defnyddio VibraTip yn ehangach yn y GIG.

ISBN:  978-1-4731-1043-4